

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 62/2016
DYDDIAD CYHOEDDI: 03/10/2016

'Cofrestri Tai Cyffredin' a 'Chofrestri Tai Hygyrch' Awdurdodau Lleol: Adroddiad

1. Cyflwyniad

Nod y darn byr hwn o ymchwil yw deall mwy am y sefyllfa bresennol ynghylch y defnydd o Gofrestri Tai Cyffredin a Chofrestri Tai Hygyrch mewn Awdurdodau Lleol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hon.

Rhestr aros a rennir rhwng yr Awdurdod Lleol a Chymdeithasau Tai yn yr un ardal yw Cofrestr Tai Cyffredin. Mae'n galluogi pobl sy'n chwilio am dai cymdeithasol i wneud un cais yn unig yn hytrach na sawl cais mewn un ardal.

System a rhestr aros sy'n paru'r tai cymdeithasol a addaswyd sydd ar gael â phobl ag anableddau sydd ar y rhestr aros am dai yw Cofrestr Tai Hygyrch.

2. Methodoleg

Datblygwyd arolwg ar-lein gan ddadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio Questback (adnodd arolwg ar-lein). Roedd e-bost a anfonwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r 22 o Awdurdodau Lleol yn cynnwys dolen i'r arolwg ac unwaith y'i cwblhawyd cofnodwyd yr ymatebion drwy Questback ac fe'u dadansoddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd modd cwblhau'r arolwg ym mis Mehefin 2016 (cafodd y dyddiad cau cychwynnol ei ymestyn er mwyn annog mwy o ymatebion). Cafwyd ymatebion gan 21 o'r 22 o Awdurdodau Lleol.

Roedd yr arolwg yn gofyn cwestiynau agored a chaeedig. Ar gyfer y cwestiynau agored, cynhaliwyd dadansoddiad thematig er mwyn nodi'r themâu a materion allweddol.

3. Canfyddiadau

Cofrestri Tai Cyffredin

Mae gan y mwyafrif (76% n=16) o Awdurdodau Lleol Gofrestr Tai Cyffredin, felly dim ond 24% (n=pump) sydd heb un. Gofynnwyd i'r pum Awdurdod Lleol a nododd nad oedd ganddynt Gofrestr Tai Cyffredin a oeddent yn bwriadu datblygu un. Roedd pedwar o'r pum Awdurdod Lleol yn bwriadu datblygu un.

Cofrestr Tai Cyffredin: Partneriaid

Hefyd, gofynnwyd i'r Awdurdodau Lleol sydd â Chofrestri Tai Cyffredin ar hyn o bryd pwy oedd y partneriaid Cymdeithas Dai sydd ynghlwm wrthynt. Ymatebodd yr 16 o Awdurdodau Lleol a nododd fod ganddynt Gofrestr Tai Cyffredin i'r cwestiwn hwn. Mae'n bwysig nodi, pan oedd yr Awdurdodau Lleol hyn yn ymateb, eu bod yn aml yn rhoi mwy nag un partner a oedd dan sylw. Canfu'r ymchwil mai'r partner mwyaf cyffredin

oedd Cymdeithas Tai Wales & West, a nodwyd gan wyth Awdurdod Lleol. Cymdeithas Tai Hafod oedd y partner mwyaf cyffredin nesaf a nodwyd gan chwe awdurdod lleol, ac yn dynn ar ei sodlau roedd Linc Cymru a Cartrefi Melin a nodwyd gan bum Awdurdod Lleol.

Gofynnodd yr arolwg i'r 16 Awdurdod Lleol a nododd fod ganddynt Gofrestr Tai Cyffredin hefyd ba agweddau ar weithio mewn partneriaeth a oedd yn gweithio'n dda.

Soniodd naw o'r 16 o Awdurdodau Lleol a ymatebodd am ba mor dda mae'r partneriaethau eu hunain yn gweithio. Roedd manteision cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid o fudd tebyg i bob Awdurdod Lleol:

"Fel partneriaeth rydym yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n gyfle da i ddatblygu prosiectau eraill lle mae'n briodol cydweithio."

"Dull gweithredu amlasiantaethol, mae pob partner yn ymgysylltu'n dda â'r broses o Arweinwyr Tai i Gyfarwyddwyr a Rheolwyr Gweithredol."

"Yn ddiweddar, cafodd pob polisi ei adolygu a'i ddiwygio a gynorthwywyd gan broses gyfathrebu dda a pharodrwyd i weithio mewn partneriaeth er budd pawb."

Hefyd soniodd chwech o'r Awdurdodau Lleol am fantais cyfarfodydd rheolaidd:

"Cyfarfodydd grŵp llywio chwarterol"

"Fel partneriaeth rydym yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n gyfle da i ddatblygu prosiectau eraill lle mae'n briodol cydweithio."

"Cyfarfodydd misol â'r 4 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i drafod materion gweithredol"

Hefyd nodwyd bod y Gofrestr ei hun yn ffordd o arbed amser ac adnoddau:

"Mae cael un rhestr yn golygu bod llai o waith gweinyddol ac mae pob partner yn cartrefu'r ymgeiswyr mwyaf anghenus."

"..defnyddio un mynediad system TG a sganio pob dogfen berthnasol"

Yna gofynnwyd i'r 16 Awdurdod Lleol nodi a oeddent wedi cael unrhyw drafferth gyda'u Cofrestr Tai Cyffredin. Un o'r materion cyffredin a gododd (ymhlith saith Awdurdod Lleol) oedd cysondeb ceisiadau a phroblemau posibl o ran gwahanol bartneriaid yn gwneud gwaith dyrannu mewn ffordd wahanol.

"Mae un her sylweddol yn deillio o'r ffaith yr arferai pob partner tai ddyrannu mewn ffordd gwbl wahanol"

"Gall sicrhau cysondeb wrth roi'r polisi rhestr fer ar waith ymhlith y partneriaid fod yn gymhleth ac yn anodd ar adegau".

Roedd a wnelo anhawster arall a nodwyd gan ddau Awdurdod Lleol â phroblemau gyda'r system TG a oedd ar waith. Nododd un Awdurdod Lleol, er enghraifft, gan mai partner arall oedd yn cynnal y system, fod hyn yn golygu na allai gyflawni gweithgareddau adrodd. Cafwyd rhai arwyddion bach o anghydbwysedd yn y systemau, lle nad oedd gan bob partner yr un mynediad:

"Mae hyn yn golygu bod angen iddynt e-bostio taenlen atom ar ôl pob dyraniad fel bod ein swyddogion yn gallu diweddarau'r system. Mae hyn yn arwain at ddyblygu gwaith ac oedi wrth fewnbynnu data felly nid yw'r rhestr yn gwbl gyfredol."


Rheoli Cofrestrï Tai Cyffredin Awdurdodau Lleol:

Gofynnwyd i'r 16 Awdurdod Lleol sydd â Chofrestrï Tai Cyffredin am y gwaith o reoli eu cofrestr o ddydd i ddydd. Caiff y mwyafrif (13) eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol ei hun. Mae un Awdurdod Lleol yn gweinyddu'r gofrestr a'r broses hysbysebion gosod sy'n cynnig dewis, ond ei Gymdeithas Dai sy'n gwneud dyraniadau yn erbyn y fframwaith polisi cyffredin. Mae Awdurdod Lleol arall yn cyflawni prif swyddogaethau rheoli'r Gofrestr Tai Cyffredin ond mae pob sefydliad yn rheoli ei gleientiaid ei hun; ond nododd Awdurdod Lleol arall ei fod yn defnyddio Cymdeithas Dai i reoli'r Gofrestr Tai Cyffredin ar ran y cyngor a phartneriaid y Gymdeithas Dai.

Effeithiolrwydd Cofrestrï Tai Cyffredin Awdurdodau Lleol:


Gofynnwyd i'r 16 Awdurdod Lleol nodi pa mor effeithiol yw'r Gofrestr Tai Cyffredin o ran eu helpu i ddarparu gwasanaeth tai a diwallu anghenion tai mewn ffordd gydgyssylltiedig. Nododd y mwyafrif o Awdurdodau Lleol (69% n=11) fod eu Cofrestr Tai Cyffredin yn effeithiol iawn, gyda'r 31% arall (n=pump) yn nodi ei bod yn eithaf effeithiol. Dangosir hyn yn Ffigur 1 isod. Mae hyn yn dangos bod pob Awdurdod Lleol sydd â Chofrestr Tai Cyffredin o'r farn ei bod yn effeithiol.

Ffigur 1: O'ch safbwynt chi, pa mor effeithiol yw'r Gofrestr Tai Cyffredin o ran eich helpu i ddarparu gwasanaeth tai a diwallu anghenion o ran tai mewn ffordd cydgysylltiedig?



Hefyd, mae'r mwyafrif o ymatebwyr o'r farn bod Cofrestrï Tai Cyffredin yn effeithiol wrth alluogi Awdurdod Lleol i weithredu rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Nododd hanner yr Awdurdodau Lleol (n=wyth) fod eu Cofrestr Tai Cyffredin yn effeithiol iawn yn hyn o beth, tra nododd 44% (n=sraith) ei bod yn eithaf effeithiol. Dim ond un Awdurdod Lleol (6%) a nododd nad oedd yn effeithiol iawn. Dangosir hyn yn Ffigur 2 isod.

Ffigur 2: Pa mor effeithiol yw eich Cofrestr Tai Cyffredin o ran eich helpu i weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014? (Atal digartrefedd).



Yna gofynnwyd i'r Awdurdodau Lleol egluro pam eu bod o'r farn bod Cofrestr Tai Cyffredin yn effeithiol. Nododd yr wyth Awdurdod Lleol a oedd yn teimlo bod eu Cofrestr Tai Cyffredin yn effeithiol iawn wrth eu galluogi i weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fod y rheini sydd angen cael eu cartrefu fwyaf nawr yn cael eu hailgartrefu cyn gynted â phosibl. Nododd pedwar o'r Awdurdodau Lleol hyn mai'r rheswm dros hyn oedd y pwyslais diwygiedig ar y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd ac sydd dan fygythiad hynny.

Nododd y sylwadau a wnaed gan rai o'r saith Awdurdod Lleol a ddywedodd fod eu Cofrestr Tai Cyffredin yn eithaf effeithiol fod y Gofrestr, yn yr achos hwn fel rhan o system osod sy'n cynnig dewis, yn eu galluogi i ddangos i gleientiaid pa eiddo sydd ar gael ac y gall cleientiaid wneud un cais a all arwain at gynnig 15,000 o eiddo. Awgrymodd Awdurdod Lleol arall fod partneriaid tai yn cefnogi ei ddyletswyddau o ran digartrefedd ar y cyfan, ond y gall y nifer isel o lety un ystafell wely sydd ar gael ei gwneud yn anodd cyflawni'r ddyletswydd.

Cofrestr Tai Hygyrch

Nododd y mwyafrif o'r 21 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt Gofrestr Tai Hygyrch (81% n=17). Dim ond 19% (n=pedwar) a nododd nad oedd ganddynt un. Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebion dilynol i'r arolwg fod gan bob Awdurdod Lleol system ar waith mewn gwirionedd i baru'r tai a addaswyd sydd ar gael â phobl ag anableddau sydd ar y rhestr aros am dai.


O'r pedwar Awdurdod Lleol a nododd nad oedd ganddynt Gofrestr Tai Hygyrch, mae dau yn bwriadu datblygu un, ond nid felly'r ddau Awdurdod Lleol arall. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod gan bob un o'r 21 o Awdurdodau Lleol systemau paru ar waith, hyd yn oed os nad yw hyn wedi'i ddiffinio'n lleol fel Cofrestr Tai Hygyrch.

Nododd y pedwar Awdurdod Lleol a ddywedodd nad oedd ganddynt Gofrestr Tai Hygyrch eu bod yn defnyddio cyfryngau eraill, fel y Gofrestr Tai Cyffredin, rhestr bapur neu Osodiadau sy'n Cynnig Dewis i gyflawni'r un swyddogaeth. Caiff eiddo a addaswyd ei nodi ac yna ei baru â'r sawl sydd wedi nodi bod angen iddynt gael eiddo a addaswyd ar y Gofrestr Tai Cyffredin neu restr bapur. Yn yr un modd, yn achos gosodiadau sy'n cynnig dewis, gwahoddir y sawl sydd wedi cofrestru bod angen iddynt gael eiddo a addaswyd i wneud cynnig am eiddo o'r fath pan ddaw ar gael.

Gofynnwyd i'r 17 Awdurdod Lleol sydd â Chofrestr Tai Hygyrch nodi sut y byddent yn ei disgrifio gan ddefnyddio'r categorïau a roddir yn Ffigur 3 isod. Yr atebion mwyaf cyffredin oedd:


- 'Cofrestr annibynnol sy'n darparu gwasanaeth paru' (47% n=wyth)
- 'Cofrestr sy'n rhan o'r gofrestr tai cyffredin' (41% n=saith)
- 'Rhan o gynllun gosod sy'n cynnig dewis' (12% n=dau Awdurdod Lleol)

Ffigur 3: Sut y byddech yn disgrifio eich Cofrestr Tai Hygyrch?



Yna gofynnwyd i'r 17 Awdurdod Lleol dicio'r holl opsiynau a oedd yn gymwys i'w Cofrestr Tai Cyffredin. Dangosir yr atebion mwyaf cyffredin yn Ffigur 4 isod. Tra dewisodd chwe Awdurdod Lleol gyfuniad o ddau opsiwn a oedd yn gymwys i'w Cofrestr Tai Hygyrch, dewisodd chwech hefyd dim ond un o'r opsiynau a oedd ar gael (er bod yr opsiynau a ddewiswyd yn amrywio). Dewisodd pum Awdurdod Lleol y tri opsiwn.

Ffigur 4: A yw eich Cofrestr Tai Hygyrch:




Yna gofynnwyd i'r 17 Awdurdod Lleol sydd â Chofrestr Tai Hygyrch nodi beth oedd hyn yn eu galluogi i'w wneud. Mae Ffigur 5 isod yn dangos yn glir amryw swyddogaethau'r Gofrestr Tai Hygyrch ymhlith

Awdurdodau Lleol. (Mae'n bwysig nodi y gallai Awdurdodau Lleol dicio'r holl categorïau a oedd yn gymwys iddynt. Dewisodd mwyafrif yr Awdurdodau Lleol gymysgedd o bedwar opsiwn.)


Mae'r atebion mwyaf cyffredin (fel y nodir yn Ffigur 5) yn datgelu bod Cofrestrï Tai Hygyrch yn bwysig o ran galluogi Awdurdodau Lleol i asesu anghenion unigolyn (mathau o addasiadau/ gofynion hygyrchedd ac ati) a hefyd o ran galluogi Awdurdodau Lleol i ddeall y gofynion posibl o ran dylunio datblygiadau tai cymdeithasol newydd. Nodwyd ei bod hefyd yn galluogi Awdurdodau Lleol i reoli eu stoc yn briodol.

Ffigur 5: Camau a hwylusir gan Gofrestrï Tai Hygyrch
D.S. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn



Nododd 14 Awdurdod Lleol sydd â Chofrestrï Tai Hygyrch y gallai pobl ag anableddau wneud cais am dai anghenion cyffredinol sydd wedyn yn cael eu haddasu os nad oes eiddo addas a addaswyd ar y gofrestr. Roedd nifer sylweddol lai o Awdurdodau Lleol (tri) nad oeddent yn caniatáu i bobl ag anableddau wneud cais am dai anghenion cyffredinol, a ddangosir yn Ffigur 6 isod.


Ffigur 6: A yw pobl ag anableddau yn gallu gwneud cais am dai anghenion cyffredinol sydd wedyn yn cael eu haddasu os nad oes eiddo addas ar y Gofrestr?



Yna gofynnwyd i Awdurdodau Lleol nodi pa mor hir, ar gyfartaledd, y mae angen i'r rheini sydd wedi cael eu hasesu gan therapydd galwedigaethol ac y bernir eu bod mewn categori angen blaenoriaethol ar y rhestr aros am dai, aros am gartrefi wedi'u haddasu.

Ymatebodd 17 Awdurdod Lleol i'r cwestiwn hwn, gyda thua hanner (wyth) yn nodi bod angen aros llai na chwe mis. Fodd bynnag, nododd tri Awdurdod Lleol fod angen aros yn hirach, 19-24 mis a mwy na 24 mis. Dangosir hyn yn Ffigur 7 isod. Fodd bynnag, nododd Awdurdodau Lleol hefyd ei bod yn anodd pennu amser aros gan fod cynifer o ffactorau dylanwadol yn effeithio ar geisiadau unigolion. Soniodd Awdurdodau Lleol eraill am y problemau a gafwyd yn sgil y toriadau cyllidebol sydd wedi golygu bod ganddynt lai o amser ac adnoddau i ymdrin â cheisiadau'n effeithiol.

Ffigur 7: Pa mor hir, ar gyfartaledd, y mae pobl sydd wedi cael eu hasesu gan therapydd galwedigaethol ac y bernir eu bod mewn categori angen blaenoriaethol ar y rhestr aros am dai wedi'u haddasu yn ardal eich Awdurdod Lleol chi?




Effeithiolrwydd Cofrestr Tai Hygyrch:

Ymatebodd yr 17 Awdurdod Lleol i'r cwestiwn am ba mor effeithiol yw eu Cofrestr Tai Hygyrch o ran eu helpu i ddiwallu anghenion tai pobl ag anableddau. Mae Ffigur 8 isod yn dangos bod y mwyafrif o Awdurdodau Lleol (naw) o'r farn bod eu Cofrestr Tai Hygyrch yn eithaf effeithiol, gyda (chwe) Awdurdod Lleol yn nodi ei bod yn effeithiol iawn. Yna gofynnwyd cwestiwn dilynol iddynt ynghylch pam eu bod o'r farn bod Cofrestr Tai Hygyrch yn effeithiol/ddim yn effeithiol. Nododd y chwe Awdurdod Lleol a oedd o'r farn bod eu Cofrestr Tai Hygyrch yn effeithiol iawn o ran diwallu anghenion tai pobl ag anableddau mai'r rheswm dros hyn oedd llwyddiant paru'r tai sydd wedi'u haddasu ac sydd ar gael â'r rheini sydd eu hangen fwyaf gan alluogi Awdurdodau Lleol i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn arbed arian.

Roedd yr Awdurdodau Lleol hynny a atebodd eithaf effeithiol yn gadarnhaol ar y cyfan ond codwyd materion ynghylch y cyfle cyfyngedig i ddylanwadu ar ddatblygiadau newydd i ddarparu ar gyfer unigolion ag anghenion penodol, diffyg gwybodaeth am yr holl dai sydd wedi'u haddasu mewn ardal ac mae rhai wedi awgrymu cyfyngiadau o ran pa mor dda y gall y gofrestr baru gan fod amgylchiadau'n unigol a bod angen eu hasesu fesul eiddo. Roedd gan y ddau Awdurdod Lleol a ddewisodd ddim yn effeithiol iawn resymau gwahanol dros wneud hyn. Roedd un o'r farn bod peryg na chaiff y rhai mwyaf anghennus dai oherwydd 'blaenoriaethau croes'. Roedd y llall o'r farn nad oedd digon o eiddo priodol ar gael yn ei ardal i fodloni'r galw am eiddo a ddyluniwyd yn arbenigol er mwyn diwallu anghenion hirdymor, neu'n fwy penodol eiddo mynediad gwastad â chawod mynediad gwastad.


Ffigur 8: O'ch safbwynt chi, pa mor effeithiol yw'r Gofrestr Tai Hygyrch o ran eich helpu i ddiwallu anghenion tai pobl ag anableddau?



Staffio Cofrestr Tai Hygyrch:

Nododd y mwyafrif o Awdurdodau Lleol (11) fod eu Cofrestr Tai Hygyrch yn cael ei chefnogi gan staff sydd â rolau a chyfrifoldebau eraill. Dim ond pum Awdurdod Lleol a nododd fod eu Cofrestr Tai Hygyrch yn cael ei chefnogi gan Wasanaeth neu Dîm Tai Hygyrch penodedig. Nododd Awdurdod Lleol arall fod ei Gofrestr Tai Hygyrch yn cael ei chynnal o fewn y Cynllun Gosod sy'n Cynnig Dewis felly yr un staff sy'n rheoli'r ddwy system. Dangosir hyn yn Ffigur 9 isod.

Ffigur 9: Sut mae staff yn cefnogi'r Gofrestr Tai Hygyrch?



Gofynnwyd i'r 17 Awdurdod Lleol sydd â Chofrestr Tai Hygyrch nodi pa hyfforddiant arbenigol y mae eu staff yn ei dderbyn er mwyn galluparu pobl ag anableddau â chartref hygyrch. Nododd y mwyafrif (11) o Awdurdodau Lleol fod Therapydd Galwedigaethol yn cynnal asesiadau.

"Ni chynigir unrhyw eiddo i denant heb i Therapydd Galwedigaethol ei weld a'i asesu"

"Mae'r aelod o staff yn Therapydd Galwedigaethol cymwysedig"

Hefyd, soniwyd am hyfforddiant cyffredinol ar bolisiâu a gweithdrefnau, er i un grybwyll hyfforddiant staff ar gyflyrau iechyd.

Ni soniodd pedwar Awdurdod Lleol am hyfforddiant, er i ddau o'r rhain nodi bod eu timau yn addas ac yn brofiadol i gyflawni eu rolau.

Monitro

Gofynnwyd i Awdurdodau Lleol hefyd a oedd ganddynt systemau ar waith i fonitro faint o bobl ag anableddau sy'n cael eu hailgartrefu. Mae gan y mwyafrif (14) o Awdurdodau Lleol system ar waith. Dim ond tri sydd heb un. Yn yr un modd, gofynnodd yr arolwg p'un a oedd system ar waith i fonitro'r canlyniadau o ran faint o arian sy'n cael ei arbed i gyllidebau eraill megis y Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Addasiadau Ffisegol. Unwaith eto, nododd y mwyafrif (17) o Awdurdodau Lleol fod ganddynt system ar waith. Dim ond dau oedd heb system.

4. Casgliadau

Cofrestrï Tai Cyffredin

Mae gan y 21 o Awdurdodau Lleol Gofrestr Tai Cyffredin, neu maent yn bwriadu cyflwyno un, mewn partneriaeth ag amrywiaeth o Gymdeithasau Tai. Canfu'r arolwg fod Awdurdodau Lleol o'r farn bod Cofrestrï Tai Cyffredin yn arbed adnoddau ac yn meithrin partneriaethau da. Fodd bynnag, codwyd materion o ran prosesau dyrannu gwahanol partneriaid.

Roedd yr holl ymatebwyr o'r farn bod Cofrestrï Tai Cyffredin yn effeithiol i ryw raddau ac roedd y rhan fwyaf o'r farn eu bod yn ddefnyddiol wrth eu helpu i weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Cofrestrï Tai Hygyrch

Mae gan y 21 o Awdurdodau Lleol Gofrestrï Tai Hygyrch neu maent yn defnyddio rhestr aros/cofrestr arall, fel y Gofrestrï Tai Cyffredin neu osodiadau sy'n cynnig dewis, er mwyn paru eiddo sydd wedi'i addasu sydd newydd ddod ar gael â'r rheini ar y rhestr aros.

Hefyd, dywed Awdurdodau Lleol fod Cofrestrï Tai Hygyrch yn eu galluogi i asesu anghenion addasu unigol, llywio'r broses o ddatblygu tai cymdeithasol newydd a'u helpu i reoli eiddo gwag a stoc bresennol. Roedd y mwyafrif o Awdurdodau Lleol o'r farn bod Cofrestrï Tai Hygyrch yn effeithiol oherwydd eu llwyddiant wrth baru a'u bod yn eu galluogi i reoli stoc yn briodol.

Awduron yr Adroddiad: Lucie Griffiths a Lizzie Harris. Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, L a Harris, L (2016) '*Cofrestri Tai Cyffredin' a 'Chofrestri Tai Hygyrch' Awdurdodau Lleol: Adroddiad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Lucie Griffiths

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: lucie.griffiths@wales.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-7614-1